Adroddiad ar Gyllid Addysg Uwch
7 Ionawr 2014 a 27 Ionawr 2014

Rhan 1 o'r ymateb

Annwyl Mr Andrews

Yn dilyn fy neges e-bost dyddiedig 29 Tachwedd 2013, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 26 Tachwedd 2013, a eglurwyd gennych wedyn ar 5 Rhagfyr 2013. Roedd eich cais a eglurwyd yn gofyn am y canlynol:

A. *Pob copi drafft o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyllid Addysg Uwch a oedd yn ymgorffori sylwadau'r A-G*

B. *Holl gofnodion a nodiadau cyfarfodydd mewnol yn ymwneud â'r astudiaeth a'r adroddiad ar Gyllid Addysg Uwch*

C. *Holl nodiadau'r trafodaethau rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a'r Rheolwr Prosiect, Matthew Mortlock, a'r ohebiaeth rhyngddynt yn ymwneud â'r astudiaeth a'r adroddiad ar Gyllid Addysg Uwch*

O safbwynt rhan A o'ch cais, mae gennym adroddiad drafft sy'n cyfateb i ddisgrifiad eich cais, ond rwy'n ei atal am y rhesymau canlynol:

- Byddai datgelu'r wybodaeth yn niweidio swyddogaethau archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru. Byddai datgelu'r adroddiadau archwilio drafft yn rhwystro cydweithredu ag archwilwyr ac yn niweidio effeithiolrwydd y broses archwilio, gan gynnwys cadernid y broses gymeradwyo adroddiadau (a'r gwaith o ddatblygu adroddiad drafft yn fewnol cyn hynny). Felly, cwmpesir y wybodaeth gan yr esemptiad a ddarperir gan adran 33 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae cyhoeddi mwy o wybodaeth am archwilwyr sector cyhoeddus o fudd i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â chynnal archwiliad cyhoeddus effeithiol drwy osgoi colli cydweithrediad, y perygl o roi'r un pwyslais ar ganfyddiadau cychwynnol ag sy'n cael ei roi ar gasgliadau sydd wedi'u profi'n llawn, neu unrhyw ffordd arall o niweidio'r broses o lunio adroddiad terfynol a fyddai'n deillio o ddatgelu'r wybodaeth, yn fwy na'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'i datgelu. Mae angen cydweithrediad o'r fath er mwyn cynnal prosesau archwilio effeithlon ac effeithiol. Felly, ar ôl pwyso a mesur y dadleuon er budd y cyhoedd, rwyf wedi penderfynu y dylid cadw'r esemptiad a ddarperir gan adran 33.

- Mae'r esemptiad a ddarperir gan adran 36 (niweidio'r gallu i gynnal busnes cyhoeddus yn effeithiol) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 hefyd yn berthnasol oherwydd mai diben adroddiadau drafft yw rhoi cyfle i bobl fynegi barn yn rhydd ac yn ddi-flewyn-ar-dafod i'w hystyried fel y gellir cyflwyno'r ffeithiau yn deg. Byddai datgelu gwybodaeth o'r fath yn atal barn rhag cael ei mynegi'n rhydd ac yn ddi-flewyn-ar-dafod i'w hystyried. Mae rhannu gwybodaeth am waith archwilwyr sector cyhoeddus, gan gynnwys y broses o sicrhau bod adroddiadau nid yn unig yn ffeithiol gywir ond hefyd yn deg a chytbwys, o fudd i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â chynnal archwiliad ac arolygiad cyhoeddus effeithiol, drwy osgoi niweidio'r cyfryw brosesau fel y byddai'n digwydd drwy ddatgelu'r wybodaeth, yn fwy na'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'i datgelu. Felly, ar ôl

pwyso a mesur y dadleuon er budd y cyhoedd, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi penderfynu y dylid cadw'r esemptiad.

-

O safbwynt rhan B o'ch cais, rwy'n amgáu'r dogfennau canlynol:

1. E-bost oddi wrth Matthew Mortlock at Ian Clarke a Hywel Pullen ar 24 Awst 2012 am 15:02;
2. Dogfen o'r enw *"Agreed actions following Issues Analysis meeting on 14 August 2012"*;
3. Adran 3 o gofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyfarwyddwyr Perfformiad ar 7 Chwefror 2013;
4. E-bost oddi wrth Matthew Mortlock at Hywel Pullen ar 3 Mai 2013 am 15:06.

Mae eitem 4 wedi'i golygu oherwydd bod yr esemptiad gwybodaeth bersonol o dan adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (sy'n esemptiad absoliwt) yn berthnasol i'r wybodaeth. Mae'r esemptiad yn berthnasol oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth yn mynd yn groes i egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 1998.

Mae gennym ragor o wybodaeth sy'n cyfateb i ddisgrifiad rhan B o'ch cais, ond rwy'n ei hatal am y rhesymau canlynol:

- Byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio swyddogaethau archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru. Byddai datgelu'r cyfryw wybodaeth yn niweidio effeithiolrwydd y broses archwilio. Felly, cwmpesir y wybodaeth gan yr esemptiad a ddarperir gan adran 33 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae cyhoeddi mwy o wybodaeth am archwilwyr sector cyhoeddus o fudd i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â chynnal archwiliad cyhoeddus effeithiol drwy osgoi niweidio'r broses archwilio a fyddai'n deillio o ddatgelu'r wybodaeth (fel amharu ar drafodaethau cychwynnol yr archwiliad neu ganfyddiadau'r archwiliad sy'n dod i'r amlwg) yn fwy na'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'i datgelu. Felly, ar ôl pwyso a mesur y dadleuon er budd y cyhoedd, rwyf wedi penderfynu y dylid cadw'r esemptiad a ddarperir gan adran 33.
- Mae'r esemptiad a ddarperir gan adran 36 yn berthnasol oherwydd bod y wybodaeth wedi'i darparu i alluogi pobl i fynegi barn yn rhydd ac yn ddi-flewyn-ar-dafod i'w hystyried. Byddai datgelu gwybodaeth o'r fath yn atal barn rhag cael ei mynegi'n rhydd ac yn ddi-flewyn-ar-dafod i'w hystyried. Mae rhannu gwybodaeth am waith archwilwyr sector cyhoeddus o fudd i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â chynnal archwiliad ac arolygiad cyhoeddus effeithiol, drwy osgoi niweidio'r cyfryw brosesau fel y byddai'n digwydd drwy ddatgelu'r wybodaeth, yn fwy na'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'i datgelu. Felly, ar ôl pwyso a mesur y dadleuon er budd y cyhoedd, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi penderfynu y dylid cadw'r esemptiad.
-

O safbwynt rhan C o'ch cais, mae gennym wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn. Mae elfennau o'r wybodaeth hon wedi'u cynnwys yn yr esemptiad gwybodaeth bersonol o dan adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sy'n esemptiad absoliwt. Mae'r esemptiad yn berthnasol oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth yn mynd yn groes i egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 1998, ac felly mae gwybodaeth o'r fath yn cael ei hatal. Mae gweddill y wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad yn rhan C o'ch cais yn cael ei chynnwys yn yr esemptiadau o dan adran 33 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (swyddogaethau archwilio) ac adran 36 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (niweidio'r gallu i gynnal busnes cyhoeddus yn effeithiol). Mae elfennau o'r wybodaeth yn cael eu cynnwys yn yr esemptiad o dan adran 43 (buddiannau masnachol) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O safbwynt y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr esemptiadau yn adran 33 ac adran 43, mae angen rhagor o amser arnaf i bwyso a mesur dadleuon budd y cyhoedd er mwyn penderfynu a ddylid

cadw'r esemptiadau, ac mae angen rhagor o amser ar yr Archwilydd Cyffredinol i bwyso a mesur dadleuon budd y cyhoedd mewn perthynas â'r esemptiad o dan adran 36. Byddaf yn ysgrifennu atoch chi eto pan fydd y gwaith o ystyried rhan C o'ch cais wedi'i gwblhau, a dylai hynny ddigwydd erbyn 4 Chwefror 2014.

Os bydd gennych unrhyw gŵyn am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost ataf neu ysgrifennwch ataf.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan yr adran honno cewch ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth benderfynu a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf. Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Fodd bynnag, dylech nodi y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi ddilyn pob cam o dan ein gweithdrefnau cwyno mewnol ni cyn gwneud cais o'r fath. Gallwch gael rhagor o ganllawiau ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth yn http://www.informationcommissioner.gov.uk.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Yn gywir

Ian Phillips

Rhan 2 o'r ymateb

Annwyl Mr Andrews

Yn dilyn fy e-bost dyddiedig 7 Ionawr 2014, rwyf i a'r Archwilydd Cyffredinol wedi cwblhau'r profion budd cyhoeddus mewn perthynas â'r wybodaeth sydd gennym yn ymwneud â rhan C o'ch cais, sef:

Holl nodiadau'r trafodaethau rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a'r Rheolwr Prosiect, Matthew Mortlock, a'r ohebiaeth rhyngddynt yn ymwneud â'r astudiaeth a'r adroddiad ar Gyllid Addysg Uwch.

Rwy'n amgáu'r eitemau canlynol (mae'r rhifau'n dilyn fy e-bost dyddiedig 7 Ionawr 2014):

5. E-bost oddi wrth Matthew Mortlock at Huw Thomas dyddiedig 22 Mai 2013 am 09:43 (noder nad yw atodiad yr e-bost, na gweddill yr e-bost, wedi'u cynnwys gan nad ydynt yn berthnasol i'r astudiaeth neu'r adroddiad ar Gyllid Addysg Uwch ac felly maent y tu hwnt i gwmpas eich cais);
6. E-bost oddi wrth Matthew Mortlock at Huw Thomas dyddiedig 26 Medi 2013 am 10:02, ynghyd ag atodiad;
7. E-bost oddi wrth Huw Thomas at Matthew Mortlock dyddiedig 26 Medi 2013 am 10:25;

8. E-bost oddi wrth Matthew Mortlock at Huw Thomas dyddiedig 09 Hydref 2013 am 16:45 (noder bod yr atodiad y tu hwnt i gwmpas eich cais ac yn eiddo i'r cyhoedd);
9. E-bost oddi wrth Matthew Mortlock at Huw Thomas dyddiedig 05 Tachwedd 2013 am 08:31 (Rwy'n atal yr atodiadau am y rhesymau a nodir yn (i) a (ii) isod);
10. E-bost oddi wrth Matthew Mortlock at Huw Thomas dyddiedig 12 Tachwedd 2013 am 11:46;
11. E-bost oddi wrth Matthew Mortlock at Huw Thomas et al dyddiedig 20 Tachwedd 2013 am 09:36, ynghyd ag atodiad;
12. E-bost oddi wrth Huw Thomas at Matthew Mortlock dyddiedig 20 Tachwedd 2013 am 17:47, e-bost oddi wrth Matthew Mortlock dyddiedig 20 Tachwedd 2013 am 17:35;
13. E-bost oddi wrth Matthew Mortlock at Huw Thomas dyddiedig 20 Tachwedd 2013 am 18:20;
14. E-bost oddi wrth Huw Thomas at Matthew Mortlock a Rachel Moss dyddiedig 21 Tachwedd 2013 am 11:49;
15. E-bost oddi wrth Huw Thomas at Matthew Mortlock dyddiedig 21 Tachwedd 2013 am 11:04, e-bost oddi wrth Matthew Mortlock at Huw Thomas dyddiedig 21 Tachwedd am 10:06;
16. E-bost oddi wrth Huw Thomas at Matthew Mortlock dyddiedig 21 Tachwedd am 15:27.

Mae eitemau 10, 11 a 13 wedi'u golygu am y rhesymau a nodir yn (i) a (ii) isod.

Mae eitemau 7, 12, 13, 15 a 16 wedi'u golygu oherwydd bod yr esemptiad gwybodaeth bersonol o dan adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (sy'n esemptiad absoliwt) yn berthnasol i'r wybodaeth. Mae'r esemptiad yn berthnasol oherwydd y byddai datgelu'r wybodaeth yn mynd yn groes i egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 1998.

Mae gennym ragor o wybodaeth sy'n cyfateb i ddisgrifiad rhan C o'ch cais, ond rwy'n ei hatal am y rhesymau canlynol:

(i) Byddai datgelu'r wybodaeth yn niweidio swyddogaethau archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru. Byddai datgelu gwybodaeth o'r fath yn rhwystro cydweithredu ag archwilwyr ac yn niweidio effeithiolrwydd y broses archwilio, yn enwedig y gwaith o ddatblygu adroddiad drafft yn fewnol a chadernid y broses gadarnhau adroddiadau. Felly, cwmpesir y wybodaeth gan yr esemptiad a ddarperir gan adran 33 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae cyhoeddi mwy o wybodaeth am archwilwyr sector cyhoeddus o fudd i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â chynnal archwiliad cyhoeddus effeithiol drwy osgoi colli cydweithrediad, y perygl o roi'r un pwyslais ar ganfyddiadau cychwynnol ag sy'n cael ei roi ar gasgliadau sydd wedi'u profi'n llawn, niweidio'r broses o gadarnhau adroddiadau, neu niweidio'r broses archwilio mewn unrhyw ffordd arall a fyddai'n deillio o ddatgelu'r wybodaeth (fel amharu ar drafodaethau cychwynnol yr archwiliad neu ganfyddiadau'r archwiliad sy'n dod i'r amlwg) yn fwy na'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'i datgelu. Felly, ar ôl pwyso a mesur y dadleuon er budd y cyhoedd, rwyf wedi penderfynu y dylid cadw'r esemptiad a ddarperir gan adran 33.

(ii) Mae'r esemptiad a ddarperir gan adran 36 (niweidio'r gallu i gynnal busnes cyhoeddus yn effeithiol) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 hefyd yn berthnasol oherwydd mai diben y wybodaeth oedd rhoi cyfle i bobl fynegi barn yn rhydd ac yn ddi-flewyn-ar-dafod i'w hystyried. Byddai datgelu gwybodaeth o'r fath yn atal barn rhag cael ei mynegi'n rhydd ac yn ddi-flewyn-ar-dafod i'w hystyried. Mae cyhoeddi mwy o wybodaeth am archwilwyr sector cyhoeddus o fudd i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r budd i'r cyhoedd

sy'n gysylltiedig â chynnal archwiliad ac arolygiad cyhoeddus effeithiol, drwy osgoi niweidio'r cyfryw brosesau hynny fel y byddai'n digwydd drwy ddatgelu'r wybodaeth, yn fwy na'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'i datgelu. Felly, ar ôl pwyso a mesur y dadleuon er budd y cyhoedd, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi penderfynu y dylid cadw'r esemptiad.

Fel y nodwyd yn fy e-bost dyddiedig 7 Ionawr 2014, mae elfennau o'r wybodaeth sy'n cyfateb i ddisgrifiad rhan C o'ch cais wedi'u cynnwys yn eithriad adran 43 (buddiannau masnachol) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys ffioedd PwC ar gyfer eu gwaith ar yr astudiaeth. Nid yw'n ymddangos bod eich cais yn canolbwyntio ar y wybodaeth hon, felly nid yw wedi'i chynnwys yn fy ymateb. Fodd bynnag, os oes angen y wybodaeth hon arnoch, rhowch wybod i mi a byddaf yn ymgynghori â PwC ac ystyried a oes modd datgelu gwybodaeth o'r fath.

Os bydd gennych unrhyw gŵyn am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost ataf neu ysgrifennwch ataf.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan yr adran honno cewch ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth benderfynu a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf. Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Fodd bynnag, dylech nodi y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi ddilyn pob cam o dan ein gweithdrefnau cwyno mewnol ni cyn gwneud cais o'r fath. Gallwch gael rhagor o ganllawiau ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth yn http://www.informationcommissioner.gov.uk.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Yn gywir

Ian Phillips